

# CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor yn Neuadd Bentref Llanelltyd  
Nos Fawrth, Ionawr 9, 2024 am 7:30yh o'r gloch.

## AGENDA

[www.cyngorllanelltyd.cymru](http://www.cyngorllanelltyd.cymru)

### Gweddi

#### 1. Ymddiheuriadau:

#### 2. Datgan diddordeb:

#### 3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Rhagfyr 12, 2023

#### 4. Materion yn codi o'r cyfarfod Rhagfyr 12, 2023

Eitem 4., Eitem 12.a. Llythyr (15/12/2023) oddi wrth Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod o'u rhestr Ardrethi Annomestig (trethi busnes) nid yw Halfway Public House i fewn band Treth Cyngor felly ni allent godi premiwm eiddo gwag arno. Mae'r trefniadau ar gyfer eiddo annomestig gwag yn wahanol ac nid oes "premiwm eiddo gwag" i'w gael ar eiddo gwag o'r fath, ond mae trethi yn daladwy ar ôl i'r eiddo fod yn wag am gyfnod penodol. Ni all y Cyngor drosglwyddo eiddo rhwng y rhestr annomestig a'r rhestr Treth Cyngor – dim ond Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr (VOA) all wneud hynny.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Eitem 4., Eitem 12.b. Llythyr ateb (15/12/2023) oddi wrth Coed Cadw yn rhoi gwybod i ni gysylltu â Cycling UK pwy sy'n gyfrifol am hysbysu'r llwybr. Neu Cyngor Gwynedd neu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Eitem 4., Eitem 12.a. Llythyr ateb (15/12/2023) oddi wrth y Parc yn rhoi gwybod maent yn ymwybodol o gyflwr gwael yr eiddo. Maent eisoes wedi ceisio cysylltu â pherchnogion yr eiddo hwn ond heb unrhyw fudd. Bydd yr ymdrechion yn parhau eto yn y flwyddyn newydd. Fodd bynnag, os yw'r Cyngor Cymuned gydag unrhyw wybodaeth mewn perthynas â'r perchnogion a sut y gellir cysylltu â nhw, yna byddai'r Awdurdod yn ddiolchgar i dderbyn y wybodaeth hon. Bydd unrhyw ddatblygiad a wneir ar y mater hwn yn cael ei adrodd i'r Cyngor Cymuned pan fydd hyn yn digwydd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

## **5. Materion Ariannol**

a. Bil (2/12/2023) am £1,580.00 oddi wrth A.M. Ashton am wneud gwaith yn y fynwent. Torri gwair a'i gludo ym Mehefin, Awst a Hydref (£1,200); chwistrellu'r llwybrau a'r waliau â chwynladdwr (10awr @ £14 = £140 + £30 (chwynladdwr)); torri mân goed a choeden gelyn wrth Tanllan a'u cludo (10awr @ £14); a thorri gwrychoedd (5awr @ £14 = £70). (Llynedd roedd y bil am £1,382.00).

Amgáu gyda'r bil mae llythyr (7/12/2023) yn awgrymu adolygu trefniant torri gwair oherwydd costau wedi cynyddu'n sylweddol ers iddo wneud y gwaith 7 mlynedd yn ôl. Mae'n awgrym torriad ychwanegol yn Ebrill / Mai. Felly bydd 4 torriad am £450 yn gwneud cyfanswm o £1,800.00 (swm presennol yw £1,200.00). Gyda gwaith ychwanegol e.e. chwistrellu £16 yr awr (pris presennol yw £14 yr awr).

Y gost fyddai'r bil uchod gyda'r prisiau newydd: £1,800 + £160 (10awr @ £16) + £30 + £160 + £80 (5awr @ £16) = £2,230.00.

b. Bil (19/12/2023) am £280.00 oddi wrth Archwilio Cymru tuag at ffiodd archwilio 2021-2022.

c. Bil (19/12/2023) am £210.00 oddi wrth Archwilio Cymru tuag at ffiodd archwilio 2022-2023.

ch. Derbyniwyd (727/12/2023) £841.17, ad-daliad oddi wrth Cyngor Gwynedd at gynnal a chadw llwybrau 2023/2024.

f. Balans yn y banc ar 29/11/2023: £.

## **6. Archwilio**

### **7. Mynwent Llanelltyd**

a. Gweler Eitem 5.a. uchod.

## **8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

### **9. Gohebiaeth**

a. Llythyr (19/21/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionydd bydd yn cael ei gynnal ar 3/1/2024 am 7.00yh ar Zoom. Amgáu mae Agenda, a Chofnodion cyfarfod 4/10/2023.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (4/1/2024) oddi wrth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (trwy law Un Llais Cymru) yn gwahodd ni i sesiwn Gwyllo Cyflymder Cymunedol: [GanBwyll | Gwyllo Cyflymder Cymunedol](#) ar 8/2/2024 am 7.00yh drwy Zoom. Mae aelodau'r gymuned, gyda'r Heddlu, yn defnyddio teclynnau i fonitro cyflymder cerbydau, gyda'r nod o addysgu gyrwyr i yrru'n arafach. Mae angen cofrestru trwy [kaarina.ruta@wlga.gov.uk](mailto:kaarina.ruta@wlga.gov.uk) cyn 31/1/2024.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

## **10. Bioamrywiaeth**

## **11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

.

## **12. Materion Aelodau**

a. Anfonwyd llythyr (30/12/2023) i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae angen ysgubo ffordd Taicynhaef. Mae gwaith ysgubo wedi cynyddu wedi'r glaw trwm rydym wedi ei gael. Hefyd, mae angen iddynt wneud rhywbeth i gael gwared o'r dŵr sy'n sefyll ar ffordd Taicynhaef wrth y troad o'r ffordd A496.

b. Dyfodol y Clerc. Mae'r aelodau yn gwneud ymdrech i gael Clerc newydd.

Yn gywir, H.M. Edwards, Clerc